© BBC 2007

# Prif Grantiau 2021

## Canllawiau Ffurflen Gais

## Mehefin 2021

BBC Children in Need a company limited by guarantee registered in England with company number 04723022, registered office Bridge House, MediaCity UK, Salford M50 2BH. Reg. charity England & Wales no. 802052 and Scotland no. SC039557

# Contents


Cwblhau’r Ffurflen ........ 3
Gyfer Dyfarnu Grantiau ........ 4
Manylion Cyswllt y Sefydliad ........ 9
Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant ........ 10
Diogelu Plant a Phobl ........ 12
Eich gwaith ........ 16
Y gwahaniaeth fyddwch yn ei wneud ........ 20
Ymateb i gyfyngiadau Covid-19 ........ 23
Gweithio mewn Partneriaeth ........ 23
Cyllideb a Materion Ariannol ........ 24
Geirdaon a Gwybodaeth Ategol ........ 26

## Cwblhau’r Ffurflen

Dyma gyngor defnyddiol i’ch helpu i gwblhau’r ffurflen hon.

- Darllenwch ein safonau gofynnol ar gyfer rhoi grantiau, a’r Canllawiau A i Z er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn gymwys. Bydd y ffurflen hon yn eich holi am ddeilliannau eich prosiect, staffio, cyllideb a chamau diogelu. Bydd hefyd yn gofyn am fwy o wybodaeth os ydych yn bartneriaeth o sefydliadau yn ymgeisio am arian.
- Atebwch yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon oni bai ein bod yn nodi bod y cwestiwn yn ddewisol.
- Mae gan nifer o’r cwestiynau uchafswm nodau. Mae hynny yn golygu y gallwch deipio swm penodol o lythrennau yn unig ar gyfer pob ateb. Mae llythrennau, atalnodi a bylchau yn cael eu cyfrif fel nodau. Pan fyddwch wedi cyrraedd yr uchafswm nodau, ni fyddwch yn gallu teipio dim mwy. Cadwch eich atebion yn glir a chryno.
- Os ydych yn dymuno cwblhau rhan o'r ffurflen ar adeg arall, cliciwch y botwm ‘Cadw a Gorffen Nes Ymlaen’ ar y diwedd. Bydd hynny yn cadw eich atebion, ac yn eich galluogi i gwblhau’r ffurflen ar adeg arall.
- Rydym yn eich cynghori i gadw eich gwaith bob 15-20 munud er mwyn sicrhau nad ydych yn colli unrhyw waith.
- Noder y gall ceisiadau sydd heb eu cyflwyno gael eu dileu ar ôl i’r dyddiad cau ar gyfer y cais fynd heibio.

Os oes unrhyw ran o’r canllawiau yma yn aneglur, neu os ydych angen mwy o help, cysylltwch â ni. Gallwch wneud hynny drwy ffonio 0345 609 0015 neu ein e-bostio yn pudseygrants@bbc.co.uk

## Gyfer Dyfarnu Grantiau

1. **Pa fath o sefydliad ydych chi?**

Rydym yn ariannu sefydliadau dielw sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 18 oed ac iau sydd o dan anfantais, ac sy'n byw yn y DU, ar Ynys Manaw neu ar Ynysoedd y Sianel. Mae gwahanol fathau o sefydliadau dielw yn y DU, ac mae gan bob un strwythur cyfreithiol gwahanol. Dewiswch pa fath o sefydliad sy'n briodol i chi. Rydym ni'n ariannu'r canlynol:

- Cwmnïau buddiannau cymunedol cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant gan gynnwys mentrau cymdeithasol
- Cymdeithasau tai
- Elusennau cofrestredig
- Sefydliadau crefyddol
- Ysgolion arbennig

Nid ydym yn ariannu'r canlynol:

- Cyrff Llywodraeth Leol: Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau ar bob lefel, carchardai neu gyrff y GIG.
- Cwmnïau cyfyngedig drwy gyfranddaliadau
- Cyrff addysgol: Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Rhaid i bob sefydliad sy'n cael eu hariannu fodloni ein safonau gofynnol ar gyfer dyfarnu grantiau.

2. **Beth yw pwrpas/dibenion eich sefydliad? Dylai'r rhain fod yn ddibenion neu nodau cyfreithiol eich sefydliad, fel y nodir yn eich dogfen lywodraethu (e.e. cyfansoddiad neu femorandwm ac erthyglau cymdeithasu).**

Copïwch yr union eiriau o'ch dogfen lywodraethu.

3. **A fyddech cystal â chyflwyno'r adran o'ch dogfen lywodraethu sy'n dangos eich bod yn rhedeg fel sefydliad dielw.**

Copïwch yr union eiriau o'ch dogfen lywodraethu.

4. **Nodwch y cymal llawn yn eich dogfen lywodraethu sy'n datgan beth fydd yn digwydd i unrhyw arian dros ben os bydd eich sefydliad yn dirwyn i ben (ee, cymal diddymu neu glo asedau).**

   Rhaid i bob sefydliad fod â chymal diddymu neu glo asedau. Copïwch hwn o'ch dogfen lywodraethu, air am air.

- Mae cymal diddymu yn esbonio sut mae eich sefydliad yn bwriadu diddymu neu ddod i ben, os bydd y sefyllfa honno'n codi. Dylai eich cymal diddymu nodi'n glir y

bydd unrhyw asedau sy'n weddill yn cael eu dosbarthu i sefydliad sydd â nodau elusennol tebyg.

- Mae clo asedau yn nodi beth fydd yn digwydd i'ch asedau, gan gynnwys unrhyw elw neu arian arall dros ben, os bydd eich sefydliad yn rhoi'r gorau i weithredu. Rhaid i'ch clo asedau enwi sefydliad elusennol/dielw a fydd yn cael y rhain os daw eich sefydliad i ben. Mae angen i'ch clo asedau ddangos i ni y byddwch yn defnyddio'r rhain er lles y gymuned. Rhaid i gwmni buddiannau cymunedol fod â chlo asedau.

5. **Sawl aelod gweithredol sydd ar gorff llywodraethu eich sefydliad?**

Eich corff llywodraethu sy'n goruchwylio ac yn rheoli eich sefydliad (e.e. ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr y cwmni). Rydyn ni'n mynnu bod gan sefydliad dri aelod o leiaf ar ei fwrdd neu bwyllgor.

6. **A yw unrhyw aelodau o fwrdd llywodraethu, staff gweithredol neu awdurdodwyr taliadau eich sefydliad yn perthyn neu'n byw gyda'i gilydd?**

Mae'n bwysig i fyrddau llywodraethu allu gweithio'n deg a heb unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Mae perthyn neu fyw gyda'ch gilydd a chithau ar y bwrdd neu'n gyflogai yn wrthdaro rhwng buddiannau. Bydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn digwydd pan fydd gan aelod o'r bwrdd neu gyflogai berthynas bersonol a phroffesiynol sy'n gwrthdaro â'i gilydd yr un pryd.

7. **Os felly, dywedwch wrthym ba bolisïau neu brosesau sydd gennych i ddiogelu trafodiadau ariannol ac i osgoi gwrthdaro buddiannau.**

Os oes pobl yn perthyn neu'n byw gyda'i gilydd, rhowch wybod i ni am unrhyw bolisïau neu weithdrefnau ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau sydd gennych ar waith i reoli hyn.

Dylai'r rhain sicrhau bod gweithdrefnau craffu a goruchwylio addas yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw benderfyniadau y gallai'r unigolion cysylltiedig hyn eu gwneud ar y cyd. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch rheoleiddiwr neu'ch gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol lleol.

8. **Sawl gwaith y flwyddyn mae corff llywodraethu eich sefydliad yn cyfarfod yn ffurfiol, gan gynnwys unrhyw Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol?**

Mae hyn yn golygu'r corff a fydd yn atebol am ein grant. Dylai hwn fod y corff a fydd yn goruchwylio ac yn rheoli'r grant hwn a'r gwaith mae'n ei ariannu. Gallai hyn fod yn ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr y cwmni, neu'n bwyllgor rheoli ar wahân. Mae cyfarfod ffurfiol yn gyfarfod gydag agenda a chofnodion ysgrifenedig. Rhowch rif yn y bocs isod, h.y. "4" yn hytrach nag "yn chwarterol".

Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, rydym yn deall efallai  bod eich cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein.

9. **Nodwch ddyddiadau pedwar cyfarfod ffurfiol diwethaf eich corff llywodraethu (fel pwyllgor rheoli, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu Gyfarwyddwyr)**

Nodwch ar ba ddyddiadau cynhaliwyd eich pedwar cyfarfod ffurfiol diwethaf. Mae cyfarfod ffurfiol yn gyfarfod gydag agenda a chofnodion ysgrifenedig.

**10. A yw unrhyw aelod o'ch corff llywodraethu'n cael unrhyw fath o daliad am ei ddyletswyddau?**

Fel rheol, nid yw sefydliadau elusennol yn gallu talu eu hymddiriedolwyr oni bai fod eu dogfen lywodraethu, y Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd yn caniatáu hynny'n benodol.

**11. Os felly, dywedwch wrthym ba bolisïau neu brosesau sydd gennych i ddiogelu trafodiadau ariannol ac i osgoi gwrthdaro buddiannau.**

Os ydych yn talu unrhyw ymddiriedolwyr, nodwch sut mae gennych ganiatâd i wneud hynny

**12. Esboniwch eich prosesau a'ch gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi taliadau.**

Amlinellwch bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad i leihau unrhyw risgiau ariannol mewn cysylltiad â thalu trydydd partïon neu aelodau o staff. Gallai hyn gynnwys yr hyn rydych yn ei wneud i awdurdodi taliadau a'r gwaith o'u goruchwylio.

Efallai fod gennych gyfyngiadau ar y canlynol:

1. Faint mae aelodau penodol o staff yn cael awdurdodi
2. Sawl person sydd ei angen arnoch i awdurdodi taliadau
3. Y broses sy'n cael ei defnyddio i gytuno ar benderfyniadau ariannol a thaliadau a'u cymeradwyo
4. Pa aelodau o staff sydd â mynediad at wybodaeth am daliadau (fel rhifau cyfrif)

**13. Sawl un sydd ei angen i awdurdodi taliad neu i lofnodi siec?**

Rhowch rif.

**14. Os oes gan eich sefydliad lai na thri mis, neu fwy na deuddeg mis o arian wrth gefn, esboniwch y rhesymau am hyn.**

Mae llawer o resymau da posibl pam mae eich sefydliad yn cadw lefel uchel neu isel o arian wrth gefn. Er enghraifft:

- Wedi prynu neu werthu eitemau mawr
- Wedi cynnal ymgyrch codi arian yn ddiweddar
- Wedi uno â chwmni arall yn ddiweddar

**15. Os oes unrhyw beth i'w nodi ynghylch eich cyfrifon (e.e. cyflwyno'n hwyr, diffyg ayb), esboniwch hyn isod**

Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol. Os hoffech ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw beth yn eich cyfrifon, rhowch wybod i ni am hynny yma. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:

- arian dros ben/diffyg,
- incwm/gwariant penodol,
- neu wybodaeth ychwanegol am eich arian wrth gefn.

16. **Dywedwch wrthym sut mae Covid-19 wedi effeithio ar sefyllfa ariannol eich sefydliad. Esboniwch gynlluniau eich sefydliad ar gyfer rheoli eich sefyllfa ariannol yn ystod y misoedd nesaf.**

Rydyn ni'n deall ei bod hi'n gyfnod heriol a bod eich incwm, neu incwm disgwyliedig, yn debygol o newid. Mae'n bosib bod newidiadau eraill yn eich sefydliad hefyd, yn fewnol ac yn allanol. Rydyn ni'n gofyn y cwestiwn hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu eich sefydliad, a sut rydych chi'n ymateb.

17. **Atodwch set ddiweddaraf o gyfrifon eich sefydliad sydd wedi cael eu llofnodi. Os ydy dyddiad y rhain 18 mis a mwy yn ôl, rhaid i chi atodi set o gyfrifon rheoli diweddar hefyd.**

Atodwch set ddiweddaraf cyfrifon swyddogol eich sefydliad yma.

Rhaid i'r cyfrifon hyn:

- Fod dim mwy na 18 mis oed.
- Dangos gweithgareddau a chronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig.
- Cynnwys datganiad incwm a mantolen sydd wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y Cadeirydd neu'r Trysorydd.
- Fod am gyfnod llawn o 12 mis

Os na fyddwch yn llwytho'r cyfrifon cywir i fyny, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Os ydych chi'n cyflwyno cyfrifon rheoli, rhowch gofnod llawn o'r holl drafodiadau ariannol. Gallai hyn fod ar ffurf taenlen Excel sy'n dangos incwm a gwariant eich sefydliad.

*Nid oes angen i ni weld cyfrifon sydd wedi'u llofnodi ar gyfer elusennau sydd wedi'u cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Rydyn ni'n dal yn disgwyl i sefydliadau gymeradwyo eu cyfrifon yn ffurfiol, ac mae'n rhaid i gopi wedi'i lofnodi fod ar gael yng nghyfeiriad cofrestredig yr elusen. Efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld hwn.

18. **A oes gan eich sefydliad bolisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc yn ei enw ei hun?**

Dylai polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc eich sefydliad fod yn enw eich sefydliad. Nid ydym yn derbyn polisïau sydd yn enw sefydliad arall, er enghraifft sefydliad partner, sefydliad rhiant neu sefydliad cysylltiedig.

19. **A yw pob aelod o staff a/neu wirfoddolwyr sy'n dod i gysylltiad wyneb yn wyneb a/neu ar-lein â phlant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant diogelu?**

Mae hyn yn ymwneud â hyfforddiant diogelu cyffredinol. Dylai roi sylw i feysydd fel arwyddion o gam-drin neu esgeuluso, a gadw plant yn ddiogel ar-lein. Dim ond ar gyfer staff neu wirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant y mae angen y wybodaeth hon arnom.

20. **Pa mor aml mae'r hyfforddiant diogelu'n cael ei adnewyddu?**

Rhowch wybod i ni pa mor aml mae hyfforddiant diogelu cyffredinol eich staff a'ch gwirfoddolwyr yn cael ei adnewyddu.

21. **A yw'r holl staff a/neu wirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad?**

Mae hyn yn cyfeirio at hyfforddiant diogelu pwrpasol i'ch sefydliad a/neu eich gwaith. Byddai'n rhoi sylw i bynciau a allai fod:

- Yn berthnasol i risgiau penodol neu elfennau o'r gwaith mae eich sefydliad yn ei wneud
- Yn berthnasol i anghenion y plant a/neu bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw
- Eich polisïau a gweithdrefnau mewnol, e.e. beth i'w wneud os bydd person ifanc yn gwneud datgeliad, a gyda phwy dylid cysylltu.

Dim ond ar gyfer staff neu wirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc y mae angen y wybodaeth hon arnom.

22. **Pa mor aml mae hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad yn cael ei adnewyddu?**

Pa mor aml mae hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad yn cael ei adnewyddu?

23. **A yw'r holl staff cymwys, y pwyllgor rheoli a'r gwirfoddolwyr wedi cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI?**

Rydyn ni'n mynnu bod eich sefydliad yn gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio gyda phlant wedi cael archwiliad cefndir perthnasol. Gallai hyn fod drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd., Disclosure Scotland neu Access NI. Mae hyn yn cynnwys yr holl staff a gwirfoddolwyr sydd â mynediad uniongyrchol at blant.

Dim ond staff cymwys sy'n gorfod cael yr archwiliadau hyn. Nid oes angen yr archwiliadau hyn ar staff a gwirfoddolwyr nad ydynt yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau perthnasol yng Nghymru a Lloegr, ewch i wefan gov.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau perthnasol yn yr Alban, ewch i wefan myscot.gov.

I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon, ewch i wefan nidirect.gov.uk.

24. **Os nad ydynt, rhowch esboniad**

Os nad yw eich sefydliad yn cynnal yr archwiliadau hyn, dywedwch wrthym pam

25. **Pa mor aml rydych chi'n ailadrodd archwiliadau cefndir eich staff /gwirfoddolwyr? (ee, Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Access NI). Os ydych chi'n gwneud cais yn yr Alban, rhowch 'Amherthnasol'.**

Rhowch wybod i ni pa mor aml rydych yn ailadrodd yr archwiliadau perthnasol ar aelodau priodol o staff. Nodwch yma a ydych yn gwneud yr archwiliadau hyn unwaith, yn rheolaidd neu a ydynt yn adnewyddu'n awtomatig.

## Manylion Cyswllt y Sefydliad

**26. Enw'r Sefydliad**

Defnyddiwch enw cyfreithiol eich sefydliad. Bydd eich enw cyfreithiol ar eich dogfennau llywodraethu a'ch cyfrif banc.

**27. Rhowch enw eich sefydliad eto**

Rhowch enw eich sefydliad eto, fel sydd wedi'i ysgrifennu uchod.

**28. Os ydych chi'n sefydliad cofrestredig (ee, elusen, cwmni buddiannau cymunedol neu gwmni cyfyngedig drwy warant) rhowch eich rhif cofrestru. Os ydych chi'n elusen yng Ngogledd Iwerddon ond sydd heb gael ei galw i gofrestru eto, rhowch eich rhif Cyllid a Thollau EM.**

Nodwch eich rhif cofrestru ar gyfer pa gorff priodol bynnag rydych wedi cofrestru ag ef. Yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gydag incwm dros £5,000 yn y flwyddyn flaenorol fod wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n rhaid i sefydliad elusennol gofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon pan fyddant yn cael eu galw gerbron y Comisiwn. Os yw eich sefydliad yn gwmni sydd wedi cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, defnyddiwch eich rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau.

**29. Rhowch rif eich elusen/cwmni eto**

Rhowch rif elusen/cwmni eich sefydliad eto, fel sydd wedi'i ysgrifennu uchod.

### Manylion Cyswllt y Sefydliad

Defnyddiwch enw cyfreithiol eich sefydliad. Bydd eich enw cyfreithiol ar eich dogfennau llywodraethu a'ch cyfrif banc.

Defnyddiwch gyfeiriad cofrestredig eich sefydliad. Lle bo'n bosib, dylai hwn fod yn gyfeiriad gweithredol ac nid yn flwch swyddfa'r post (PO BOX) neu gyfnewidfa bost. Os yw hyn wedi newid ers i chi gofrestru gyda ni, rhowch wybod i ni drwy e-bostio pudseygrants@bbc.co.uk.

Cofiwch roi rhif ffôn lleol eich sefydliad, rhif ffôn symudol safonol, neu rif nad yw'n un daearyddol (h.y. rhifau ffôn sy'n dechrau â 0303). Ni fyddwn yn ffonio unrhyw rifau cyfradd premiwm neu ryngwladol (ac eithrio Ynys Manaw). *Sylwer bod galwadau asesu fel arfer yn cael eu gwneud dros y ffôn.*

Mae angen i chi hefyd roi manylion cyswllt i ni ar gyfer Cadeirydd a Thrysorydd eich sefydliad (neu gyfwerth). Ni all y rhain fod yr un person. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r bobl hyn lofnodi Telerau ac Amodau ein grant os bydd eich dyfarniad yn llwyddiannus.

# Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant

NODYN: Darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd isod cyn llenwi'r adran hon.

**BBC Plant mewn Angen: Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant yn ein gwaith o ddyrannu grantiau.**

Fel rhan o'n hymrwymiad i amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant, hoffem fonitro'r amrywiaeth o fudiadau sy'n gwneud cais am gyllid ac sy'n dal grantiau gyda ni ac amrywiaeth y rheini maen nhw'n eu cefnogi. Os bydd ein gwaith amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn ein gwaith dyfarnu grantiau yn datblygu ymhellach, efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i lywio ein penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau, drwy ein defnydd o gamau cadarnhaol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Hoffem wybod a fydd eich prosiect yn helpu grwpiau sydd weithiau'n cael eu tangynrychioli mewn cymdeithas.

Bydd gofyn y cwestiynau hyn i chi yn ein helpu i:

- deall yn well pwy sy'n gwneud cais am gyllid
- ceisio cyrraedd mwy o grwpiau penodol.

**Beth yw Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant?**

Mae **amrywiaeth** yn golygu cynnwys gwahanol agweddau ar y gwahaniaethau rhwng pobl. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cynnwys:

- hil ac ethnigrwydd
- ffydd
- cyfeiriadedd Rhywiol
- anabledd
- oedran
- rhywedd

Mae **tegwch** yn ymwneud â bod yn deg. Os byddwn yn trin pawb yn yr un ffordd, ni fydd rhaglenni cyllido yn cyrraedd pobl mewn ffordd gyfartal neu deg.

Mae **cynhwysiant** yn golygu helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hefyd yn ymwneud â gwneud yn siŵr eu bod yn gallu cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

**Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon**

Bydd BBC Plant mewn Angen yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chasglu i fonitro amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ar draws ein cyllid ac i adrodd ar hyn i'n bwrdd. Byddwn yn rhannu data dienw ac wedi'i gronni'n allanol er mwyn bod yn dryloyw ynghylch amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn ein prosesau a'n portffolio. Os bydd ein gwaith amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn ein gwaith dyfarnu grantiau yn datblygu ymhellach, efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i lywio ein penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau, drwy ein defnydd o gamau cadarnhaol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Os nad ydych yn dymuno rhoi'r wybodaeth hon i ni, atebwch 'Mae'n well gen i beidio â dweud' i bob cwestiwn isod.

30. **Ydych chi'n ystyried bod eich sefydliad yn cael ei arwain gan amrywiaeth?**

Wrth arwain gan amrywiaeth, rydym yn golygu bod 75% neu fwy o'ch Bwrdd/Pwyllgor Rheoli, a dros 50% o'r uwch staff yn dod o gefndiroedd amrywiol. Os yw eich Bwrdd/Pwyllgor Rheoli neu uwch staff yn perthyn i fwy nag un grŵp, mae'n iawn ateb 'ydyn' i fwy nag un categori.

31. **A yw'r rhan fwyaf o'ch Bwrdd/Pwyllgor Rheoli ac uwch staff:**
    - **O gymunedau sy'n profi anghydraddoldeb, camwahaniaethu neu anghydraddoldeb ethnig neu hiliol?**
    - **Pobl anabl?**
    - **Menywod a merched?**
    - **pobl LGBTQ+?**

32. **Ydych chi'n disgwyl cefnogi grŵp amrywiol o blant a phobl ifanc?**

Os yw 75% neu fwy o'r plant a'r bobl ifanc sy'n elwa o'ch prosiect yn dod o un grŵp penodol, atebwch 'Ydyn' yn y cwestiynau isod. Efallai fod y plant a'r bobl ifanc sy'n elwa yn perthyn i fwy nag un grŵp ac mae'n iawn ateb 'Ydyn' i fwy nag un categori.

33. **Ydy 75% neu fwy o'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n disgwyl eu cyrraedd:**
    - **O gymunedau sy'n profi anghydraddoldeb, camwahaniaethu neu anghydraddoldeb ethnig neu hiliol?**
    - **Pobl anabl?**
    - **Menywod a merched?**
    - **pobl LGBTQ+?**

## Hysbysiad Preifatrwydd mewn perthynas â'r cwestiynau uchod:

Lle bynnag y bo modd, byddwn yn casglu'r wybodaeth uchod mewn ffordd sy'n golygu na fyddwn yn gallu adnabod unigolion. Weithiau nid yw hyn yn bosibl (oherwydd, er enghraifft, mae gan ymgeisydd uwch-dîm rheoli bychan) felly rydyn ni wedi ystyried goblygiadau preifatrwydd casglu'r wybodaeth hon yn ofalus ac rydyn ni eisiau rhannu hyn â chi er mwyn rhoi hyder i chi yn ein prosesau ac esbonio pa fesurau diogelu rydyn ni wedi'u rhoi ar waith i sicrhau mai dim ond am y rhesymau a nodir uchod y byddwn yn defnyddio'r data hwn.

Gwnewch yn siŵr bod eich holl ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn ymwybodol o'r hysbysiad preifatrwydd hwn gan ei fod yn egluro sut rydym yn defnyddio eu data hefyd.

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar ein system rheoli grantiau am gyfnod o naw mis, felly mae ar gael ar gyfer dadansoddi ac adrodd ar benderfyniadau ynglŷn â rhoi grantiau (os yw hynny'n berthnasol). Bydd y data hyn wedyn yn cael eu tynnu o'ch cofnod yn ein system rheoli grantiau ond bydd y system yn cadw copi o'r ffurflen gais lawn yn unol â'n polisi cadw (mae detholiad ohono ar gael ar gais). Cedwir y data hwn yn ddiogel mewn system ar wahân gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rheini y mae angen yr wybodaeth arnyn nhw at ddibenion dadansoddi. Byddwn hefyd yn casglu atebion i'r cwestiynau hyn mewn ffordd ddienw gyfunol (fel na ellir adnabod unigolion) at ddibenion dadansoddi. Bydd yr holl ddata'n cael eu cadw yn unol â'n polisïau cadw (mae detholiad ohonyn nhw ar gael ar gais) a'u cadw yn unol â'n Polisi Data Categori Arbennig (sydd ar gael ar gais).

WRydym am i chi wybod bod gennym sail gyfreithiol dros gasglu a defnyddio'r wybodaeth hon yn y ffyrdd a esbonnir uchod. Mae'n ddilys ac o fudd inni geisio sicrhau ein bod yn canfod neu'n dal i adolygu bodolaeth neu ddiffyg cyfle cyfartal neu driniaeth rhwng grwpiau o bobl sydd â'r bwriad o alluogi hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb o'r fath a cheisio sicrhau ein bod yn sicrhau canlyniadau cydraddoldeb llawnach a mwy effeithiol i grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae rheswm sylweddol hefyd dros wneud hyn er budd y cyhoedd.

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn unol â'n prosesau grant arferol fel y nodir yma.

Os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn rhoi'r wybodaeth uchod, dewiswch 'mae'n well gennyf beidio â dweud', neu os ydych chi'n newid eich meddwl, mae croeso i chi roi gwybod i ni drwy gysylltu â cindpo@bbc.co.uk.

## Diogelu Plant a Phobl

**34. Ar ba ddyddiad ydych chi am adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc nesaf?**

Rhowch wybod i ni pa bryd rydych chi'n bwriadu adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc nesaf.

**35. Ar ba ddyddiad ydych chi am adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc nesaf?**

Rhowch wybod i ni pa bryd rydych chi'n bwriadu adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc nesaf.

**36. Pwy yw Arweinydd Diogelu Dynodedig y sefydliad?**

Nodwch enw'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a phobl ifanc yn eich sefydliad. Yn aml, gelwir y person hwn yn 'Swyddog Diogelu Dynodedig' neu'n 'Arweinydd Diogelu Dynodedig'.

**37. Beth yw teitl swydd eich Arweinydd Diogelu Dynodedig?**

Nodwch deitl swydd Swyddog/Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad. Dylai hwn fod yn rhywun sydd ar lefel uwch briodol yn eich sefydliad. Dylai hefyd fod yn ddigon agos i'r gwaith rydych chi'n ei wneud fel ei fod yn ymwybodol o'r hyn rydych chi'n ei gyflawni o ddydd o ddydd.

**38. Pwy sy'n cyflwyno eich hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc? (Gall yr hyfforddiant yma gynnwys yr egwyddor gyffredinol o ddiogelu, arwyddion cam-drin, llwybrau atgyfeirio ac ati.)**

Rhowch enwi'r unigolyn neu'r sefydliad a gyflwynodd yr hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc.

**39. Beth sy'n eu gwneud yn gymwys i'w ddarparu?**

Rydyn ni am wybod:

• Beth sy'n eu gwneud yn gymwys i ddarparu'r hyfforddiant hwn? Gallai hyn gynnwys cymwysterau, profiad, aelodaeth o sefydliadau neu i bwy maen nhw'n gweithio.
• Bod y bobl sy'n darparu'r hyfforddiant hwn yn ymwybodol o'r wybodaeth fwyaf perthnasol a'r arferion gorau.

**40. Pa mor fuan ar ôl ymuno mae cyflogai/gwirfoddolwr yn cael hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc?**

Rhowch wybod i ni beth yw'r cyfnod mwyaf posibl fydd aelod o staff/gwirfoddolwr newydd yn ei dreulio yn eich sefydliad cyn cael ei hyfforddiant diogelu.

**41. A yw pob aelod o gorff llywodraethu eich sefydliad yn cael hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc?**

Mae corff llywodraethu eich sefydliad yn gyfrifol am ddiogelwch a lles y plant a'r bobl ifanc mae eich sefydliad yn dod i gysylltiad â nhw. Mae aelodau'r corff llywodraethu'n gyfrifol hyd yn oed os nad ydynt yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â'r plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â hyfforddiant diogelu cyffredinol. Bydd yn ymwneud â meysydd fel arwyddion o gam-drin neu esgeuluso, neu gadw plant yn ddiogel ar-lein.

**42. A yw pob aelod o'r corff llywodraethu'n cael hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad?**

Mae corff llywodraethu eich sefydliad yn gyfrifol am ddiogelwch a lles y plant a'r bobl ifanc mae eich sefydliad yn dod i gysylltiad â nhw. Maen nhw'n gyfrifol hyd yn oed os nad ydynt yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â'r plant a phobl ifanc eu hunain. Mae hyn yn cyfeirio at hyfforddiant diogelu pwrpasol i'ch sefydliad a/neu eich gwaith. Bydd hyn yn trin pynciau a allai fod:

Yn berthnasol i risgiau penodol neu elfennau o'r gwaith mae eich sefydliad yn ei wneud.

Yn berthnasol i anghenion y bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw. Eich polisïau a gweithdrefnau mewnol, ee beth i'w wneud os bydd person ifanc yn gwneud datgeliad, a gyda phwy dylid cysylltu.

**43. Oes gan eich sefydliad God Ymddygiad sy'n nodi disgwyliadau clir o ran sut dylai staff a gwirfoddolwyr ymddwyn tuag at blant?**

Nodwch a oes gan eich sefydliad God Ymddygiad sy'n amlinellu sut dylai eich staff, eich gwirfoddolwyr a phlant ymddwyn wrth gymryd rhan yn eich gwaith.

**44. A yw'r cod ymddygiad yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol/digidol?**

Rydyn ni'n disgwyl i bolisi diogelu eich sefydliad fodloni'r canlynol:

- Dangos diwylliant cryf o gefnogi diogelwch ar-lein a chydnerthedd digidol plant a phobl ifanc.
- Dangos sut mae staff a phlant yn ddiogel ac yn gyfrifol ar-lein.
- Bod yn berthnasol i'r sefydliad, ei weithgareddau a bod yn briodol i oedran.

Dylech ddangos eich dulliau rheoli a'ch cefnogaeth ar gyfer yr amgylchedd digidol, gan gynnwys:

- Sut rydych yn cefnogi ac yn grymuso pobl ifanc i reoli eu bywydau ar-lein. Dylai prosiectau ddangos sut maen nhw'n datblygu cydnerthedd digidol plant mewn ffordd briodol i oedran.
- Dull gweithredu cyson i adlewyrchu'r byd go iawn a'r byd rhithiol mae plant, staff a gwirfoddolwyr yn eu profi

Dylai prosiectau sy’n defnyddio technoleg ryngweithiol i gyfathrebu â phobl ifanc ystyried elfennau fel:

- Rheolaethau preifatrwydd
- Diogelwch drwy gyfrinair
- Cymedroli priodol.

**45. Oes gennych broses wedi’i dogfennu’n glir ar gyfer beth i’w wneud os caiff y polisi hwn ei dorri?**

Rhowch wybod i ni a oes proses glir sy’n cysylltu eich Cod Ymddygiad â pholisi Adnoddau Dynol os oes achos o aelod o staff neu wirfoddolwr yn peidio â dilyn ei bolisïau.

## Plant a Phobl Ifanc

**46. A yw eich sefydliad yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ledled y DU?**

Ystyr 'ledled y DU' yw sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc: O bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mewn mwy nag un sir/awdurdod lleol. Mewn mwy nag un wlad (e.e. Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon)

**47. Os felly, a wnewch chi gadarnhau lle mae’r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn byw:**

Nodwch lle mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc rydych chi’n gweithio gyda nhw'n byw. Os ydych yn gweithio ar draws mwy nag un wlad yn y DU (h.y. Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon), dewiswch Ledled y DU.

**48. Lle o fewn y DU fydd eich gwaith yn digwydd yn bennaf?**

Nodwch ym mha ardal fydd eich gwaith yn digwydd yn bennaf. Er enghraifft, os yw eich gwaith yn digwydd yng Nghaerdydd, fe allwch chi nodi Cyngor Dinas a Sir Caerdydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis un opsiwn o leiaf.

Os yw eich gwaith yn digwydd mewn mwy nag un ardal, dewiswch y brif ardal gyntaf. Gallwch chi ddewis rhagor o ardaloedd ar ôl hyn. Ystyr “prif ardal” yw'r ardal lle byddwch chi’n gwneud y rhan fwyaf o’r gwaith.

Os ydych chi'n ansicr ynglŷn â’ch ardal awdurdod lleol, gallwch wirio yma: https://www.gov.uk/find-local-council

**49. Lleoliad y Cod Post - Rhowch god post y lleoliad lle bydd y rhan fwyaf o’ch gweithgareddau yn cael eu cynnal.**

Dywedwch wrthym lle y bydd rhan fwyaf o’ch gwaith yn digwydd. Os yw’r gwaith yn digwydd mewn mwy nag un lle, rhowch god post y prif leoliad lle bydd eich gwaith yn digwydd.

50. **Disgrifiwch yr anfanteision a brofir gan y plant a'r bobl ifanc byddwch chi'n defnyddion ein harian i weithio â nhw, a dywedwch yn benodol sut mae'r anfantais hon yn effeithio ar eu bywyd dyddiol.**

Yn eich ateb canolbwyntiwch ar sut mae'r anfanteision hyn yn creu rhwystrau ychwanegol i gael cyfleoedd gwaith a llwybrau at waith.

Rydyn ni'n gwybod bod sawl ffurf ar anfantais. Maen nhw'n gallu cynnwys:

- Salwch, trallod, cam-drin neu esgeulustod.
- Unrhyw fath o anabledd.
- Anawsterau ymddygiad neu seicolegol.
- Byw mewn tlodi neu sefyllfaoedd o amddifadedd.
- grwpiau yn wynebu rhwystrau oherwydd eu hunaniaeth neu genedligrwydd, gan gynnwys grwpiau BAME.

Yn eich ateb, rydyn ni am i chi nodi beth rydych chi'n ei wybod am y plant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw.

- Er bod ystadegau'n gallu bod yn ddefnyddiol, yn aml dydyn nhw ddim yn dangos pa mor dda rydych chi'n adnabod y plant rydych chi'n gweithio gyda nhw.
- Rydyn ni hefyd eisiau gwybod sut mae'r anfanteision hyn yn effeithio ar blant a phobl ifanc.
- Cofiwch ddisgrifio sut mae'r anfanteision maen nhw'n eu hwynebu yn effeithio ar eu bywyd.

51. **Yn gyffredinol, faint o blant a phobl ifanc bob blwyddyn fydd yn elwa'n uniongyrchol o'r arian yma?**

Rydyn ni'n cefnogi gwaith lle mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc dan anfantais. Yn aml, bydd plant nad ydynt dan anfantais yn cymryd rhan hefyd. Nodwch faint o blant byddwch yn gweithio gyda nhw dros gyfnod y grant hwn. Dylai'r nifer fan hyn gynnwys yr holl blant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw, nid dim ond y rhai dan anfantais.

52. **Cyfanswm y ffigurau uchod**

Dylai hwn fod yn gyfanswm y plant a'r bobl ifanc bob blwyddyn. Os bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn elwa o'r gwaith yma am fwy nag un flwyddyn, sicrhewch eich bod yn eu cynnwys ym mhob cyfanswm blynyddol.

Er enghraifft, os bydd deg o blant yn mynychu un flwyddyn, a bod yr un deg plentyn yn mynychu yn ystod yr ail flwyddyn, dylai eich ateb ar gyfer y ddwy flynedd fod yn '10'.

53. **Faint o'r plant a phobl ifanc hyn sydd yn wynebu anfantais?**

Dywedwch wrthym faint o blant rydych yn gweithio gyda nhw bob blwyddyn sydd yn wynebu anfantais. Efallai bod hwn yr un fath â'r cwestiwn blaenorol, os bydd yr holl blant a phobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw yn wynebu anfantais.

Dylai hwn fod yn gyfanswm y plant a'r bobl ifanc bob blwyddyn sydd yn wynebu anfantais. Os bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn elwa o'r gwaith yma am fwy nag un flwyddyn, sicrhewch eich bod yn eu cynnwys ym mhob cyfanswm blynyddol.

Er enghraifft, os bydd deg o blant yn mynychu un flwyddyn, a bod yr un deg plentyn yn mynychu yn ystod yr ail flwyddyn, dylai eich ateb ar gyfer y ddwy flynedd fod yn '10'.

54. **Cyfanswm y ffigurau uchod**

Dylai hwn fod yn gyfanswm y plant a'r bobl ifanc bob blwyddyn sydd yn wynebu anfantais. Os bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn elwa o'r gwaith yma am fwy nag un flwyddyn, sicrhewch eich bod yn eu cynnwys ym mhob cyfanswm blynyddol.

Er enghraifft, os bydd deg o blant yn mynychu un flwyddyn, a bod yr un deg plentyn yn mynychu yn ystod yr ail flwyddyn, dylai eich ateb ar gyfer y ddwy flynedd fod yn '10'.

55. **Dywedwch wrthym beth yw grwpiau oedran y plant a'r bobl ifanc hyn sy'n wynebu anfantais.**

Dywedwch wrthym faint fydd oed y plant a'r bobl ifanc y byddwch yn gweithio gyda nhw. Dylai hyn gynnwys yr holl bobl ifanc sy'n elwa o'r gwaith yma - nid dim ond y rhai sydd yn wynebu anfantais. Gallwch wneud cais am arian gennym os yw'r rhan fwyaf o'r plant fydd yn elwa o'r gwaith yn 18 oed neu'n iau. Mae'r uchafswm oedran yma hefyd yn gymwys i brosiectau sydd yn gweithio â phlant anabl.

Noder: byddwn ond yn ariannu'r costau sydd yn gysylltiedig â gweithio â'r bobl ifanc 18 oed ac iau.

56. **Cyfanswm y ffigurau uchod**

Dylai hyn fod yn gyfanswm nifer y plant a'r bobl ifanc bob blwyddyn, wedi'u hychwanegu at ei gilydd.

57. **Disgrifiwch rôl y plant a'r bobl ifanc wrth gynllunio a darparu eich gwasanaethau a hefyd yn fwy cyffredinol yn sefydliad.**

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gallu dweud eu dweud, a bod rhywun yn gwrando arnynt. Dylent allu dylanwadu ar weithgareddau a gwasanaethau eich sefydliad, ac ar unrhyw broses gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw. Rhowch wybod i ni sut rydych chi wedi cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio eich gwaith. Yn benodol, rydyn ni'n dymuno gwybod sut maen nhw wedi bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau y byddai'r grant hwn yn eu cefnogi. Rydyn ni hefyd am wybod Sut rydych chi wedi addasu'r ffyrdd rydych chi'n galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eich sefydliad yn sgil COVID-19. Pa gynlluniau sydd gennych chi ar gyfer gwneud hyn yn y dyfodol.

58. **Dywedwch wrthym sut mae Covid-19 yn dal i effeithio ar y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n eu cefnogi.**

Rhowch wybod i ni:

- Sut mae COVID-19 wedi newid neu waethygu'r anfanteision mae'r plant a phobl ifanc sy'n cael cymorth gennych yn eu hwynebu. (h.y. sut mae wedi amharu ar eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol a llwybrau at gyflogadwyedd)
- Sut mae hyn wedi effeithio ar eu bywyd.
- Yr effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc rydych chi wedi'i gweld

## Eich gwaith

59. **Mewn 50 gair, dywedwch am y gwaith y bydd grant yma'n ei ariannu.**

Rhowch ddisgrifiad cryno o'r gwaith y bydd y grant yma'n ei ariannu. Dylai ddweud yn gryno wrthym am yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud ac am unrhyw bobl ifanc rydych chi'n bwriadu gweithio â nhw.

**60. Disgrifiwch yn fanylach pa weithgareddau/gwasanaethau a gaiff y plant a'r bobl ifanc o ganlyniad i'r grant yma.**

Byddwch mor benodol â phosibl wrth ddisgrifio'r math o waith a'r cynnwys rydych eisiau ei gyflawni. Ni fydd gennym unrhyw wybodaeth flaenorol am y gwaith yma, felly cyfeiriwch at weithgareddau unigol, swyddi staff a gwasanaethau.

Peidiwch â defnyddio'r cwestiwn yma i drafod:

- Yr anfanteision sydd yn wynebu'r bobl ifanc
- Y gymuned leol neu gyd-destun y prosiect
- Eich sefydliad

Bydd yna gyfle i drafod y rhain mewn mannau eraill yn y ffurflen.

**61. Os ydych chi'n gwneud cais am gostau'r sefydliad, rhowch syniad i ni o sut mae hyn yn bodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc.**

Mae costau'r sefydliad yn cyfeirio at unrhyw gostau nad ydynt o bosib yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith yma, ond i'r sefydliad yn gyffredinol.

Gallai'r rhain gynnwys costau rhedeg, staff nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith yma, yswiriant, neu gyfleustodau ac ati.

Os ydych chi'n gwneud cais am unrhyw gostau fel hyn, dywedwch wrthym ni sut mae'r rhain yn berthnasol i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio â nhw. Rydyn ni'n awyddus i wybod sut bydd y bobl ifanc yn elwa o'r costau hyn a chaniatáu i chi gyflawni eich gwaith.

**62. Os ydych chi wedi cael arian grant, esboniwch a yw'r cais yma ar gyfer gwaith newydd neu er mwyn parhau â'r grant presennol?**

Os oes gennych chi grant ar waith gyda BBC Plant Mewn Angen (neu fod eich grant diwethaf newydd ddod i ben), a'ch bod chithau'n gobeithio parhau â'r gwaith a gafodd ei ariannu gyda'r grant diwethaf, rhowch wybod i ni fan hyn. Os ydych chi'n parhau â'r gwaith a gafodd ei ariannu gyda'r grant diwethaf, nid oes yn rhaid iddo fod union yr un fath â'r hyn rydyn ni wedi'i ariannu o'r blaen. Os ydy'r gwaith yma'n debyg i waith a gafodd ei ariannu yn ddiweddar, byddwn yn meddwl amdano fel parhad o'ch prosiect blaenorol.

Rydyn ni'n hapus i gael ceisiadau ar gyfer gwaith newydd a gwaith sydd wedi'i ariannu o'r blaen.

**63. Dewiswch y prif leoliad lle fydd y gweithgareddau yn cael eu cynnal.**

Os bydd y gwaith yma'n digwydd mewn mwy nag un lleoliad, dewiswch hyd at dri opsiwn. Sicrhewch mai'r prif leoliad rydych yn ei ddefnyddio yw'r un cyntaf rydych yn ei ddewis.

**64. Ar ba ddyddiau y bydd y gwaith yn digwydd?**

Please select all the days which your work will take place on. If your work does not have a regular day timetable, please select 'No Set Day'.

65. **Pa mor rheolaidd fydd y gwaith yn diwgydd?**

Dywedwch wrthym pa mor rheolaidd fydd y gwaith hwn yn digwydd. Gallai hynny fod yn ddyddiol, wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol. Os nad yw'r gwaith yn digwydd yn rheolaidd, dewiswch 'Arall'.

66. **Os gwnaethoch ddewis 'arall', rhowch fwy o fanylion.**

Y rheswm dros hyn yw nad yw'r gwaith yn digwydd ar adegau rheolaidd, neu mae'n anodd rhagweld pryd y byddwn ni'n gwneud y gwaith.

67. **Os yw'r gwaith yma'n gweithio â phlant a phobl ifanc oedran ysgol, a fydd y gwaith neu'r gweithgareddau'n cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol?**

Hefyd, dywedwch wrthym a yw'r gwaith yma'n digwydd yn ystod oriau ysgol. Ystyrir bod hynny yn gorgyffwrdd â gwaith statudol oherwydd ei fod yn tynnu pobl ifanc o ddarpariaeth addysg statudol.

68. **Os bydd, pam eich bod wedi dewis yr amser hwnnw i wneud y gwaith yma?**

Byddwn ond yn ariannu gwaith sydd yn gorgyffwrdd â rhwymedigaethau statudol dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

Os yw eich gwaith yn gorgyffwrdd neu'n debyg i waith statudol, eglurwch eich sail resymegol yma. Rydym yn disgwyl gweld:

- Sut mae eich gwaith yn darparu gwasanaeth sydd yn ychwanegol i'r gwasanaeth statudol
- Sail resymegol glir i ddarparu:
- Y math yma o waith
- Gwaith ar yr adeg yma
- Bod y penderfyniad i gyflawni'r gwaith yma yn seiliedig ar anghenion plant a phobl ifanc.

69. **Os byddwch yn llwyddo, pryd byddwch yn dechrau gwario'r grant?**

Dywedwch wrthym ar ba ddyddiad yn union rydych yn bwriadu dechrau gwario'r grant yma. Gellir trafod y dyddiad gyda'ch swyddog grantiau os bydd eich cynlluniau yn newid yn nes ymlaen, ond ni fyddwch yn gallu dechrau eich gwaith cyn y dyddiad yma.

70. **A yw eich prosiect neu'ch gweithgarwch yn codi tâl am gymryd rhan neu i ymaelodi fel y gall plant a phobl ifanc eu mynychu?**

Ydy pobl ifanc yn talu unrhyw arian i ddod i'r prosiect neu'r gweithgareddau? Gallai hyn fod yn swm unwaith y flwyddyn/misol, neu'n swm bob tro y byddant yn mynychu. Atebwch ydyn neu nac ydyn.

71. **Os ydyw, sut ydych chi'n gwneud yn si?r nad oes yr un plentyn yn cael ei gadw allan o'r prosiect am na allant ei fforddio?**

Os ydych chi'n codi ffioedd, sut ydych chi'n gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n rhwystro unrhyw bobl ifanc rhag dod? Er enghraifft, os na all rhywun ifanc fforddio talu.

72. **Sut ydych chi'n dweud wrth blant os nad oes angen iddynt dalu?**

Os nad oes rhaid i rywun ifanc penodol dalu ffioedd, sut mae dweud hyn wrtho?

73. **Faint yw'r ffioedd?**

Nodwch 'Ddim yn berthnasol' os yw eich cyfranogiad a'ch aelodaeth yn rhad ac am ddim. Dywedwch wrthym faint, a pha mor aml, y mae'n rhaid i bobl ifanc dalu i fynychu eich prosiect neu weithgaredd.

74. **A fydd y grant yma'n darparu neu'n cefnogi unrhyw un o'r canlynol?**
    - **Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant (dim ond os yw eich gwaith yn delio'n uniongyrchol ag effeithiau cam-fanteisio'n rhywiol ar blant neu'n canolbwyntio ar ddelio â hyn y dylech ddewis yr opsiwn yma)**
    - **Cwnsela neu Waith Therapiwtig**
    - **Mentora neu Gyfeillio**
    - **Aros Dros Nos/Preswyl**

Ar gyfer y mathau hyn o waith, bydd yn rhaid i ni wneud archwiliadau diogelu ychwanegol mewn perthynas â'ch cais. Dewiswch unrhyw opsiynau o'r rhestr sydd yn gymwys i'ch gwaith. I gael gwybodaeth am feini prawf cymhwyso ar gyfer y categorïau yma, darllenwch ein Canllawiau A-Y.

- **Aros Dros Nos/Preswyl:** Mae hynny yn cynnwys unrhyw waith sydd yn cynnwys gwyliau neu aros dros nos o'r cartref.
- **Gweithgaredd Cyfeillio/Mentora**: Rydym yn diffinio mentora neu gyfeillio fel trefniant ffurfiol a strwythuredig sydd yn "berthynas wirfoddol, gydfuddiannol a phwrpasol pan fo unigolyn yn rhoi amser i gefnogi rhywun arall er mwyn ei alluogi i wneud newidiadau yn eu bywydau".
    - Ar brydiau gall rhan o'ch gwaith gynnwys staff neu wirfoddolwr yn rhoi cyngor ar hap i blant a phobl ifanc. Nid ydym yn diffinio hynny fel mentora neu gyfeillio yn yr ystyr ffurfiol.
    - I gael mwy o wybodaeth darllenwch Gwasanaethau Mentora a Chyfeillio NCVO neu ein Canllawiau A-Y.
- **Gwaith Cwnsela/Therapiwtig**: Rydym yn diffinio cwnsela fel unrhyw ymyrraeth therapiwtig sydd yn cynnwys "darparu cymorth ac arweiniad proffesiynol wrth ddatrys problemau personol neu seicolegol." Gall ymyriadau gynnwys cwnsela, therapi grŵp, therapi chwarae a therapi celf.
    - I gael mwy o wybodaeth gweler BACP (Y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Cwnsela a Seicotherapi) neu ein Canllawiau A-Y.
- **Gwaith Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE):** Mae Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fath o Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn gorfodi, cymell neu dwyllo person o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Gallai hynny gynnwys:
    - Meithrin perthynas amhriodol
    - Masnachu pobl
    - Trais
    - Gorfodaeth
    - Bygwth/Blacmel
    - Cam-fanteisio rhywiol cysylltiedig â gangiau

Nid yw Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn golygu cysylltiad corfforol bob amser. I gael mwy o wybodaeth gweler gwefan NSPCC neu ein Canllawiau A-Y.

75. **A oes unrhyw ran o'ch gwaith yn cael ei chyflawni ar-lein? Os oes, darllenwch Hunanarchwiliad Digidol BBC Plant mewn Angen.**

Dewiswch oes os ydych chi’n cynnig unrhyw wasanaethau ar-lein, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau ar-lein.

**76. Sut mae plant a phobl ifanc yn dod i wybod am eich gwaith?**

Dywedwch wrthym ni sut bydd y plant a’r bobl ifanc rydych chi’n bwriadu gweithio gyda nhw yn dod i wybod am eich gwaith. Gallai hyn fod oherwydd:

• Rydych chi wedi gweithio gyda nhw o’r blaen

• Byddan nhw’n cael eu cyflwyno drwy sefydliadau partner

• Byddan nhw’n clywed am eich gwaith drwy farchnata a gwaith maes mae’ch sefydliad yn bwriadu ei wneud.

• Gwybodaeth leol/pobl yn siarad

**77. Pam mai eich sefydliad chi yw’r un gorau i gyflawni’r gwaith yma?**

Rydyn ni'n dymuno ariannu sefydliadau cryf ag aelodau o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad i roi'r cymorth gorau posib i blant a phobl ifanc.

Rhowch wybod i ni am y canlynol:

- Eich strwythur rheoli a sut mae'r rolau allweddol hyn yn cefnogi eich sefydliad.
- Profiad a sgiliau eich corff llywodraethu a sut maen nhw'n cefnogi eich gwaith.
- Eich gallu i ymateb yn hyblyg.

Rydyn ni hefyd eisiau gwybod a yw eich sefydliad yn cael ei arwain gan bobl â phrofiadau uniongyrchol o'r materion a wynebir gan y cymunedau rydych chi'n eu helpu.

Rhowch wybod i ni:

- Sut mae'r bobl â phrofiadau uniongyrchol wedi cyfrannu at eich gwaith
- A oes gofyniad sylfaenol bod gan aelodau o staff neu ymddiriedolwyr brofiad fel aelod o'r gymuned rydych chi'n ei gwasanaethu.

**78. Ym mha ffordd y mae eich sefydliad mewn sefyllfa i wasanaethu eich cymuned?**

Efallai bod y gymuned rydych chi’n awyddus i weithio â hi yn un ffisegol, fel tref neu gymdogaeth, neu grŵp o bobl sydd wedi’u cysylltu gan brofiadau cyffredin, fel anabledd neu gefndir.

Dywedwch wrthym sut rydych chi mewn sefyllfa dda yn eich cymuned i gyflawni’r gwaith rydych chi’n dymuno ei wneud. Rydyn ni am wybod am gysylltiadau eich sefydliad â’r gymuned rydych chi’n gweithio ynddi, a sut cafodd y cysylltiadau hyn eu creu. Dywedwch wrthym hefyd sut bydd y cysylltiadau hyn yn helpu i sicrhau bod y gwaith yma yn cyrraedd y bobl ifanc rydych hi eisiau gweithio â nhw a hynny mewn ffordd mor effeithiol ag y bo modd.

## Y gwahaniaeth fyddwch yn ei wneud

**79. Disgrifiwch y tri gwahaniaeth pwysicaf fydd y sefydliad yn gallu eu gwneud i fywydau'r plant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw o ganlyniad i'r cyllid hwn**

Mae'r gwahaniaethau  y byddwch yn eu gwneud yn cael eu galw'n ganlyniadau hefyd. Yma, rydyn ni'n dymuno gwybod sut byddwch yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc. Rydyn ni am weld gwahaniaethau sydd:

- **Yn glir** – Peidiwch â'u gwneud yn orgymhleth.
- **Yn fesuradwy** – Meddyliwch am sut byddwch yn mesur y gwahaniaethau. A fydd modd dweud a ydych chi wedi llwyddo ai peidio?
- **Yn realistig** – Mae'n bwysig gwneud yn siŵr y byddwch yn gallu sicrhau'r gwahaniaethau. Mae hyd yn oed y newidiadau lleiaf ym mywydau plant a phobl ifanc yn gallu cael effaith enfawr yn aml. Gwnewch yn siŵr eich bod yn canolbwyntio ar y plant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw, nid y darlun mawr. Mae hefyd yn bwysig ystyried a oes modd sicrhau eich gwahaniaethau yn ystod cyfnod y cyllid hwn.
- **Yn canolbwyntio ar y plentyn** – Rydyn ni'n ariannu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc. Os ydych chi'n gweithio gydag amgylchedd y person ifanc (h.y. ei rieni, y gymuned), gwnewch yn siŵr eich bod dim ond yn trafod sut bydd hyn o fudd i'r plentyn neu'r person ifanc.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer nodi eich gwahaniaethau:

- Cadwch nhw'n syml. Ysgrifennwch un datganiad am sut byddwch yn newid bywydau pobl ifanc er gwell. Peidiwch â chysylltu mwy nag un gwahaniaeth gyda geiriau fel 'ac'.
- Defnyddiwch iaith sy'n dangos newid. Mae gwahaniaeth cryf yn aml yn defnyddio geiriau fel 'gwell', 'lleihau', 'cynyddu' 'llai', 'cryfhau' ac ati.
- Gwnewch yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn. Meddyliwch am beth fyddai pob gwahaniaeth yn ei olygu i berson ifanc.
- Gwnewch yn siŵr eu bod yn berthnasol. Mae bob amser yn syniad da sicrhau ei bod hi'n glir sut mae eich gwahaniaethau'n gysylltiedig â'r anfanteision a wynebir gan y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw.
- I gael mwy o fanylion am sut rydyn ni am i'n gwaith wella bywydau plant a phobl ifanc yn y DU, cliciwch yma.

**80. Disgrifiwch sut bydd y gweithgareddau neu'r gwasanaethau byddwch yn eu darparu gyda'r cyllid hwn yn sicrhau'r tri gwahaniaeth rydych chi wedi'u hamlinellu uchod.**

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau lle mae modd gweld cysylltiad clir rhwng y gwaith a gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc.

Dylech chi esbonio'n glir y cysylltiad rhwng y gweithgareddau neu'r gwasanaethau byddwch yn eu darparu, a'r gwahaniaethau byddwch yn eu gwneud i blant a phobl ifanc.

Os ydych chi'n gwneud cais am gostau sefydliad, meddyliwch am y cyswllt rhwng eich gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc, a'r gwahaniaethau rydych chi wedi'u nodi uchod.

Rhowch wybod i ni sut bydd y gwaith neu'r gwasanaethau yn helpu i sicrhau'r gwahaniaethau hyn i blant a phobl ifanc. Dylech chi feddwl am sut bydd y gweithgareddau'n arwain at newidiadau cadarnhaol yn eu bywyd.

81. **Dywedwch wrthym sut byddwch yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith a wnewch, i ddangos y gwahaniaethau rydych chi wedi’u crybwyll uchod**

Rhaid i'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud i fywydau pobl ifanc fod yn fesuradwy. Rhowch wybod i ni pa wybodaeth byddwch yn ei defnyddio i bennu a yw eich gwaith yn llwyddiant ai peidio. Dylech chi wneud y canlynol:

- Ystyried defnyddio gwybodaeth wahanol ar gyfer pob gwahaniaeth.  Gwneud yn siŵr eich bod yn meddwl am y ffordd orau o fesur pob un yn unigol.
- Ystyried defnyddio cymysgedd o ystadegau a hanesion. Mae rhifau ac ystadegau'n ddefnyddiol iawn ar gyfer mesur tueddiadau a phatrymau. Mae hanesion yn well ar gyfer casglu enghreifftiau go iawn, a fydd yn gwneud i'ch gwaith ddod yn fyw pan fyddwn yn darllen amdano. Byddwch wedi clywed y termau 'ansoddol' a 'meintiol' ar gyfer y mathau hyn o ddata.

**Meddyliwch am y ffordd orau o gasglu gwybodaeth. Mae sawl ffordd o wneud hyn. Dyma rai enghreifftiau:**

Rhaid i'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud i fywydau pobl ifanc fod yn fesuradwy. Rhowch wybod i ni pa wybodaeth byddwch yn ei defnyddio i bennu a yw eich gwaith yn llwyddiant ai peidio. Dylech chi wneud y canlynol:

- Ystyried defnyddio gwybodaeth wahanol ar gyfer pob gwahaniaeth.  Gwneud yn siŵr eich bod yn meddwl am y ffordd orau o fesur pob un yn unigol.
- Ystyried defnyddio cymysgedd o ystadegau a hanesion. Mae rhifau ac ystadegau'n ddefnyddiol iawn ar gyfer mesur tueddiadau a phatrymau. Mae hanesion yn well ar gyfer casglu enghreifftiau go iawn, a fydd yn gwneud i'ch gwaith ddod yn fyw pan fyddwn yn darllen amdano. Byddwch wedi clywed y termau 'ansoddol' a 'meintiol' ar gyfer y mathau hyn o ddata.

Meddyliwch am y ffordd orau o gasglu gwybodaeth. Mae sawl ffordd o wneud hyn. Dyma rai enghreifftiau:

- Arsylwadau: Beth ydych chi'n ei glywed/gweld pan fyddwch yn gwylio'r bobl ifanc dros amser? Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer niferoedd uchel o bobl ifanc. Ond mae'n rhaid i chi ofalu bod eich gweithwyr prosiect yn gyson.
- Ffurflenni Adborth/Holiaduron: Mae'r rhain yn ddefnyddiol ar gyfer cael gwybodaeth benodol gan nifer fawr o bobl. Maen nhw'n gallu bod yn anodd eu dylunio ac yn anniddorol i blant weithiau.
- Ymarferion Graddfa Mae'r rhain yn cynnwys creu eich graddfa eich hun. Yn aml, mae'r raddfa rhwng un a deg, neu cytuno ac anghytuno. Wedyn mae plant yn gallu 'gosod' eu hunain ar y raddfa. Does dim rhaid iddynt fod ar bapur. Maen nhw'n gallu bod yn hwyl ac yn greadigol. Yn aml, dydy pobl ifanc ddim yn sylweddoli eu bod yn rhoi adborth.
- Sgyrsiau: Gallai'r rhain fod gyda phlant, rhieni, athrawon neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Maen nhw'n cymryd mwy o amser, ond yn gallu rhoi

dealltwriaeth gref i chi o'r unigolion. Mae hefyd yn bwysig gwneud yn siŵr bod yr adborth yn onest.
    - Adnoddau cydnabyddedig: Mae llawer o adnoddau cydnabyddedig gallech chi eu defnyddio. Mae manteision ac anfanteision i'r rhain. Maen nhw'n cynnwys pethau fel Coed Blobiau, Graddfa Lles Wawrick-Caeredin, Hunanasesiadau STAR, neu'r Prawf Tŷ/Coeden/Person.
    - Gwneud eich adnoddau eich hun: Yn aml iawn, y ffordd orau o gasglu gwybodaeth yw bod yn greadigol a meddwl am y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw. Meddyliwch am beth fyddai fwyaf addas iddynt.
- Meddyliwch am hyn wrth gasglu'r wybodaeth hon. Bydd eich gwybodaeth yn fwy defnyddiol o lawer os byddwch yn ei chasglu wrth gyflawni eich gwaith a darparu eich gwasanaethau, yn hytrach nag ar ddiwedd blwyddyn yn unig.

Am fwy o wybodaeth ac adnoddau, ewch i:

- Gwasanaethau Gwerthuso'r NCVO i Elusennau (NCVO)
- Inspiring Impact
- Evaluation Support Scotland ( ESS )

## Ymateb i gyfyngiadau Covid-19

**82. Sut byddwch yn adolygu eich gwasanaethau ac yn parhau i addasu dros y misoedd nesaf?**

Mae'n bwysig bod sefydliadau'n hyblyg ac yn gallu addasu yn yr amgylchiadau presennol, er mwyn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc yn y ffordd orau bosib.

- Rydyn ni'n awyddus i gefnogi sefydliadau sydd wedi ymrwymo i adolygu, dysgu a gwneud newidiadau os oes angen.
- Rhowch wybod i ni sut byddwch yn asesu llwyddiant eich gweithgareddau.
- Dylech chi hefyd esbonio sut byddwch yn defnyddio unrhyw ddysgu i newid eich darpariaeth os oes angen.

## Gweithio mewn Partneriaeth

**83. Ydy'r cais hwn gan sefydliadau sydd mewn partneriaeth?**

Ystyr partneriaeth fan hyn yw grŵp o ddau neu fwy o sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd.
Dewiswch 'ydy' os ydych chi'n gweithio gyda sefydliad arall i gyflawni'r gwaith hwn.
Trowch at ein Canllawiau A-Z i gael mwy o wybodaeth am ein dull gweithredu mewn cysylltiad â phartneriaethau.
Fyddwn ni ddim ond yn ariannu partneriaethau os oes perthynas yn bodoli rhwng y sefydliadau'n barod.

**84. Os ydy, nodwch enw'r Sefydliad(au) rydych chi mewn partneriaeth â nhw.**

Os ydych chi'n gweithio gyda sefydliad arall i gyflawni'r gwaith hwn, nodwch enw'r

sefydliad(au) yma.

**85. Ai eich sefydliad chi fydd y prif sefydliad sy'n cyflawni'r gwaith hwn?**

Rhaid i bob prosiect mewn partneriaeth enwebu prif sefydliad. Y sefydliad hwn ddylai wneud cais i ni. Hefyd, y sefydliad hwn fydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Rheoli arian y grant ac adrodd yn ôl.
- Cyflawni prosiectau.
- Rheoli gweithwyr sy'n cael eu hariannu gan y prosiect.
- Gwneud yn siŵr bod y gwaith yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddo.
- Diogelu

**86. Os na, dywedwch wrthym pwy fydd a pham?**

Os nad chi yw'r prif sefydliad, dywedwch pam. Rydyn ni am wybod pam mai chi yw'r sefydliad priodol i wneud cais am ein cyllid. Bydd angen i ni ddeall sut byddwch yn rheoli unrhyw risgiau mewn cysylltiad â diogelu, cyflawni a chyllid.

**87. Oes gennych chi gytundeb partneriaeth ar ffurf memorandwm cyd-ddealltwriaeth?**

Mae'n bwysig bod gan bartneriaeth strwythur a chytundeb clir. Fel arfer, byddem yn disgwyl i hyn fod ar ffurf memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y sefydliadau yn y bartneriaeth. Dylai'r cytundeb nodi'n glir sut bydd y bartneriaeth yn cael ei rhedeg o ran strwythur, atebolrwydd a mesurau diogelu.

**88. Amlinellwch eich cytundeb partneriaeth, gan gynnwys rheoli, monitro effaith a threfniadau diogelu.**

Nodwch fanylion y cytundeb rhyngoch chi a'ch sefydliad(au) partner. Bydden ni'n disgwyl gweld:

- pwy yn y bartneriaeth ydy'r arweinydd diogelu
- sut mae'r bartneriaeth yn gweithio o ran dilyn y polisi diogelu
- unrhyw drefniadau o ran rheoli'r gwaith a monitro ei lwyddiant.

## Cyllideb a Materion Ariannol

**89. Faint bydd y gwaith yma'n ei gostio i gyd, gan gynnwys unrhyw gostau nad ydych chi'n gofyn i BBC Plant mewn Angen eu hariannu?**

Beth yw cyfanswm costau'r gwaith yma? Dylai'r ffigur yma gynnwys yr holl gostau rydych chi'n gwneud cais i BBC Plant mewn Angen am arian ar eu cyfer, yn ogystal ag unrhyw gostau eraill rydych chi'n eu hariannu o lefydd eraill.

**90. Am faint o gyllid ydych chi'n gofyn gan BBC Plant mewn Angen?**

Peidiwch â chynnwys gwerthoedd mewn ceiniogau, defnyddio arwyddion £, nac atalnodau.

**91. Os nad ydych chi'n gofyn am y costau llawn sy'n gysylltiedig â'r gwaith yma gan BBC Plant mewn Angen, dywedwch wrthym sut byddwch yn ariannu'r costau eraill.**

Os ydych chi'n talu am rannau o'r gwaith yma gydag arian o lefydd eraill (fel arian o'ch cronfeydd eich hun neu gyllidwr arall), rhowch wybod i ni fan hyn. Rydyn ni am wybod o ble daw'r arian a faint byddwch chi'n ei ddefnyddio.

**92. Os nad ydych chi'n gofyn am y costau llawn sy'n gysylltiedig â'r prosiect gan BBC Plant mewn Angen, a yw'r ffynhonnell arall o gyllid wedi'i sicrhau?**

Os ydych chi'n talu am rannau o'r gwaith yma gydag arian o lefydd eraill, dywedwch wrthym os ydych chi wedi codi'r arian yn barod, neu os nad yw wedi'i gadarnhau eto.

**93. Cofiwch gynnwys y swm o arian rydych chi'n gofyn amdano ym mhob pennawd cyllideb isod a dweud yn y golofn disgrifiad beth fydd hyn yn talu amdano. Sylwch fod y ffigurau hyn ar gyfer y swm yr ydych yn gofyn amdano gan BBC Plant mewn Angen, nad yw efallai'n gyllideb gyfan y prosiect/gwaith.**

Disgrifiwch faint o arian rydych chi'n gwneud cais i ni amdano. Dylid rhannu'r swm hwn i'r categorïau amrywiol, flwyddyn yn ôl blwyddyn.

Dyma'r categorïau:

- **Costau Staffio** Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflogau ar gyfer staff cyflogedig, sesiynol neu lawrydd. Gall hyn gynnwys Yswiriant Gwladol a chyfraniadau eraill fel costau sy'n gysylltiedig â phensiwn.
- **Hyfforddiant:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer hyfforddi eich staff a'ch gwirfoddolwyr ar y sgiliau a/neu wybodaeth newydd i gyflawni'r gwaith hwn yn ddiogel ac yn effeithiol.
- **Technoleg a Chysylltiadau:** Mae hyn yn cynnwys prynu technoleg (e.e. gliniaduron, dyfeisiau tabled, ffonau symudol ac ati) i bobl ifanc neu staff – technoleg a fydd yn caniatáu i bobl ifanc ymgysylltu â'r gwaith yma. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw gostau cysylltiedig fel contractau ffôn neu lwfansau data.
- **Gweithgareddau i Blant a Phobl Ifanc:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau sy'n cael ei wario'n uniongyrchol ar ddarparu'r gweithgareddau rydych chi'n bwriadu eu gwneud gyda'r plant a'r bobl ifanc.
- **Cyfarpar arall:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau cyfarpar eraill nad ydynt yn perthyn i'r categorïau blaenorol.
- **Costau Sefydliadol Cyffredinol:** Costau rhedeg sefydliad o ddydd i ddydd ydy'r rhain yn hytrach na chostau penodol y prosiect. Gallai hyn gynnwys staff (gan gynnwys staff swyddfa gefn), costau rhedeg, cyfarpar neu gostau datblygu'r sefydliad. Rydyn ni'n disgwyl i sefydliadau allu dangos sut mae'r costau hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau i blant a phobl ifanc. Bydd y costau hyn yn eich helpu i sefydlogi, i addasu ac i newid er mwyn bodloni anghenion plant a phobl ifanc a/neu helpu i ddarparu gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc.
- **Arall:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau eraill yr ydych yn dymuno gofyn amdanynt (e.e. costau hygyrchedd) ac nad ydynt yn perthyn i'r categorïau uchod.

## Geirdaon a Gwybodaeth Ategol

**94. Rhowch fanylion canolwr addas sydd y tu allan i'ch sefydliad, y gallwn gysylltu â nhw ynglŷn â'ch cais.**

Mae canolwr yn unigolyn sydd yn gyfarwydd â'ch sefydliad a'r gwaith yr ydych yn ei wneud.

Bydd yn cefnogi eich cais drwy ddweud wrthym am eu profiad gyda'ch sefydliad a'r gwaith yr ydych yn ei gyflawni. Yn aml mae canolwyr yn bobl broffesiynol yr ydych wedi gweithio gyda nhw.

Mae'n rhaid i'ch canolwr fod yn rhywun y tu allan i'ch sefydliad. Dylai fod yn rhywun sydd:

- yn gyfarwydd â'ch sefydliad mewn rôl broffesiynol am o leiaf 6 mis
- nad yw'n gweithio, gwirfoddoli nac yn un o fuddiolwyr eich sefydliad, ac mae hynny yn cynnwys: ymddiriedolwyr neu gyflogeion presennol, gwirfoddolwyr, defnyddwyr presennol y gwasanaeth neu yn y gorffennol, na'u teuluoedd.
- â dealltwriaeth dda o'r prosiect yr ydych yn ymgeisio ar ei gyfer. Mae hynny oherwydd efallai y byddwn yn gofyn iddynt drafod eich cais ar e-bost neu dros y ffôn.

Os nad ydych wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc o'r blaen, dylai eich canolwr gyfeirio at y gwaith yr ydych wedi ei gyflawni yn ystod y 12-24 mis diwethaf, a bod mewn sefyllfa i roi sylwadau ar eich addasrwydd i gyflawni'r prosiect yr ydych yn gwneud cais am arian ar ei gyfer.

Byddwn yn derbyn geirdaon gan oruchwyliwr clinigol neu ymgynghorydd allanol eich sefydliad, cyn belled nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan eich sefydliad. Rhowch i ni y manylion cyswllt gorau ar gyfer yr unigolyn yma. Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi cael caniatâd yr unigolyn yma cyn rhoi ei fanylion i ni. Dylai'r manylion cyswllt yr ydych yn eu rhoi i ni fod yn gyfeiriad e-bost a rhif ffôn gwaith proffesiynol y canolwr.